# Datblygiad Ysbyty Nevill Hall
# a’n hysbytai cyffredinol lleol datblygedig

## Cwestiynau Cyffredin

**Pam mae'r bwrdd iechyd yn cynnig y newidiadau hyn?**
Mae ein canolfan gofal critigol (Ysbyty Athrofaol y Faenor) ar agor ers dros bedair blynedd. Mae pwysau difrifol ar yr ysbyty (er enghraifft, gall cleifion orfod aros yn hir i gael eu gweld yn yr adran achosion brys, ac mae gennym lawer o gleifion sy'n ffit yn feddygol ond nad ydynt yn gallu cael eu rhyddhau) ac o ganlyniad nid yw'n gweithredu mor effeithiol ag y byddem yn dymuno. At hyn, mae’r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau ariannol arbennig ac mae angen iddo sicrhau bod ei holl wasanaethau yn cael eu darparu mor ddiogel ac effeithlon â phosibl (er enghraifft, mae gennym fwy o welyau ar agor ar hyn o bryd nag yr oeddemwedi;i fwriadu’n wreiddiol, a staff asiantaeth sy’n gyfrifol am y rhain yn bennaf ac mae hyn yn ddrud.).

Oherwydd hyn, rydym yn edrych yn ofalus ar yr hyn yr ydym yn ei ddarparu yn ein 'ysbytai cyffredinol lleol datblygedig sy’n cefnogi, i weld a allwn addasu'r rhain i wella'r sefyllfa. (Er enghraifft, lle mae'n anodd gweithredu'r un gwasanaethau ym mhob un o'r ysbytai hyn, efallai y byddai'n synhwyrol ceisio lleoli'r rhain ar un safle yn unig).

Er bod hyn yn berthnasol i'n holl ysbytai cyffredinol lleol, rydym yn canolbwyntio ar Ysbyty Nevill Hall yn y lle cyntaf, gan fod y safle hwn yn debygol o gael buddsoddiad ychwanegol ac mae angen sylw arno er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) mewn rhai ardaloedd.

**Beth yw 'ysbyty cyffredinol lleol datblygedig'?**
Dyma ein hysbytai sy'n cefnogi'r ganolfan gofal critigol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau llai cymhleth a gwasanaethau arferol, fel y gall y Faenor ganolbwyntio ar gleifion sydd angen gofal mwy cymhleth ac arbenigol. Mae’r rhain yn cynnwys Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni, Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ac Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach. Rydym yn disgwyl y bydd gan bob un o'r rhain rôl arweiniol yn y dyfodol,

er enghraifft ar gyfer radiotherapi, adsefydlu strôc neu driniaethau unedau dydd penodol.

**A fydd y bwrdd iechyd yn dal i ddarparu'r holl wasanaethau sydd ar gael nawr?**

Bydd gan ein poblogaeth fynediad o hyd at yr holl wasanaethau maen nhw'n eu cynnig nawr. Yr hyn a allai newid o bosibl yw yn union ble ac ar faint o wahanol safleoedd y darperir rhai gwasanaethau.

**Pa wasanaethau fydd yn cael eu darparu yn Ysbyty Nevill Hall?**

Ein bwriad yw y bydd Ysbyty Nevill Hall yn darparu ystod eang iawn o wasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys gofal brys, clinigau cleifion allanol, llawdriniaethau wedi'u cynllunio, radiotherapi, canolfan blant, gwasanaethau iechyd meddwl a phrofion diagnostig megis sganio MRI/CT ac endosgopi.

**A fyddwch yn rhoi'r gorau i ddarparu unrhyw wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysbyty Nevill Hall yn y dyfodol os bydd y cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt?**

Er nad ydym yn disgwyl i unrhyw wasanaethau mawr presennol gael eu symud yn gyfan gwbl, mae'n bosibl y byddai angen rhai addasiadau i'r ffordd y darperir rhai gwasanaethau dros amser, yn unol â'r egwyddorion yr ydym wedi'u nodi yn y ddogfen friffio e.e. sicrhau bod gwasanaethau wedi'u staffio'n dda a'u bod yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol i'n poblogaeth. Pe bai unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cynnig yn y dyfodol, byddai'r rhain yn destun cyfnod ymgysylltu ar wahân a phenodol.

**Sut bydd hyn yn effeithio arnaf os bydd angen triniaeth arnaf?**

Byddwch yn dal i gael yr holl ofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnoch, ond efallai y bydd y lleoliad y mae'r gofal yn cael ei ddarparu yn dibynnu ar eich union anghenion, er enghraifft, bydd llawer o ofal arferol yn dal i gael ei ddarparu yn ein holl brif ysbytai, efallai y bydd peth gofal (mwy cysylltiedig) cael ei ddarparu yn un o'n hysbytai cyffredinol lleol datblygedig a bydd gofal cymhleth/arbenigol yn cael ei ddarparu (fel y mae nawr) yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Dangosir rhai enghreifftiau yma.

| Pa ofal sydd ei angen arnaf? | Ble gellid darparu hyn? |
|---|---|
| Archwiliad arferol ar gyfer cyflwr y frest e.e. asthma | Meddygfa leol a/neu ysbyty cyffredinol lleol |
| Asesiad manylach os ydych chi'n teimlo'n sâl yn sydyn gyda chyflwr y frest | Ysbyty Brenhinol Gwent fel ein safle arweiniol ar gyfer gofal anadlol 'cerdded i mewn' |
| Derbyniad i wely ar gyfer gofal arbenigol gan Feddyg Ymgynghorol y Frest | Ysbyty Athrofaol y Faenor fel ein canolfan gofal critigol |

| Pa ofal brys sydd ei angen arnaf? | Ble gellid darparu hyn? |
|---|---|
| Mân anaf | Uned mân anafiadau ym mhob un o'n hysbytai cyffredinol lleol. |
| Anaf y tu allan i oriau | Uned mân anafiadau (yn unol â'r oriau agor) ym mhob un o'n hysbytai cyffredinol lleol neu ddeialu 111/999 |
| Damwain neu argyfwng sydd angen gofal brys arbenigol (gan gynnwys llawdriniaeth frys) | Ysbyty Athrofaol y Faenor fel ein canolfan gofal critigol |

**A fydd hyn yn golygu bod angen i mi deithio ymhellach i gael triniaeth?**
Er mwyn sicrhau bod ein holl wasanaethau yn ein hysbytai cyffredinol lleol datblygedig yn parhau i gael eu darparu'n gyson o ansawdd uchel, mae'n bosibl y bydd y gofal sydd ei angen arnoch yn cael ei ddarparu ar un safle yn unig, ac efallai y bydd angen teithio i'r safle hwnnw wedyn. Byddwn bob amser yn sicrhau bod yr angen i deithio yn cael ei leihau bob amser a lle mae gwasanaethau'n cael eu canoli, y gwneir hyn am resymau ansawdd a diogelwch yn unig.

**Sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn lleihau goblygiadau teithio posibl?**
Er ein bod bob amser yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mor agos at gartrefi pobl â phosibl, rydym yn cydnabod, os bydd hyn yn digwydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor neu mewn un o'n hysbytai cyffredinol lleol datblygedig, y gallai hyn fod cryn bellter o'ch cartref. Pan ddarperir gofal yn y modd hwn, byddai'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cefnogi cleifion a'u teuluoedd gyda chludiant cymunedol/ysbyty lle bo angen, cynnig gwahanol amseroedd ymweld sy'n cyd-fynd â gwasanaethau trafnidiaeth lleol er mwyn cefnogi teuluoedd a darparu cyswllt o fewn ein tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ofal anwyliaid os nad ydynt yn gallu ymweld. Byddwn hefyd yn defnyddio opsiynau digidol ar gyfer cysylltu yn y dyfodol lle mae'r rhain yn effeithiol ac yn dileu'r angen i deithio.

**A wnaiff y Bwrdd Iechyd gefnogi teuluoedd gyda threfniadau trafnidiaeth i ymweld â'u hanwyliaid?**
Byddwn yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gymorth cludiant i'n cleifion, gan gynnwys y canlynol: -

- Cymorth / gwybodaeth cludiant cymunedol/ysbytai
- Gwybodaeth am wasanaethau bysiau lleol

- Gwybodaeth am gymorth ariannol sydd ar gael mewn rhai amgylchiadau e.e. tocynnau tacsi lle nad oes gwasanaethau bws uniongyrchol
- Parcio am ddim ym meysydd parcio ein hysbyty
- Amseroedd ymweld pwrpasol i'r rhai sydd eu hangen

Mae cyngor a chymorth ychwanegol hefyd ar gael gan y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS): https://abuhb.nhs.wales/files/patient-advice-liaison-service-pals/pals-leaflet-v1-2-english-pdf/

**A fydd y cynlluniau hyn yn tynnu pwysau oddi ar Ysbyty Athrofaol y Faenor?**
Y bwriad yw y bydd gwneud ein hysbytai cyffredinol lleol datblygedig mor effeithlon ac effeithiol â phosibl yn cael effaith gadarnhaol ar waith Ysbyty Athrofaol Y Faenor, er enghraifft lleihau oedi ar gyfer triniaeth a throsglwyddo.